Panel Annibynnol Cymru
ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration
Panel for Wales

# Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol:

# Adroddiad Atodol mewn perthynas â Chyngor Sir Ynys Môn

Rhagfyr 2017

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG33642 ISBN digidol 978-1-78903-005-1

**PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

**Adroddiad Atodol mewn perthynas â Chyngor Sir Ynys Môn.**

1. Mae Adran 142(5) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cyfyngu i 50% o aelodaeth awdurdod y nifer uchaf o daliadau a wneir mewn perthynas â materion penodol a awdurdodwyd gan y Panel, oni bai bod caniatâd Gweinidogion Cymru wedi'i gael.

2. Mae aelodaeth Cyngor Ynys Môn yn 30, felly ni chaiff mwy na 15 aelod dderbyn taliadau am faterion penodol (sef uwch gyflog).

3. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wedi cydsynio i gynnydd mewn taliadau o'r fath i 16 yn ddarostyngedig i benderfyniad penodol y Panel.

4. Mae Adran 142(4) o'r Mesur fel y'i diwygiwyd gan Adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn awdurdodi'r Panel i benderfynu ar yr uchafswm o "uwch gyflogau" sy'n daladwy gan bob awdurdod a gosodir y terfynau hyn yn Adroddiad Blynyddol y Panel. Yn achos Ynys Môn, mae hyn yn 15 ar hyn o bryd.

5. Mae'r Panel yn bwriadu penderfynu y cynyddir hyn i uchafswm o 16 a bydd yn dod i rym o ddyddiad yr Adroddiad Atodol.

6. Yn unol ag Adran 66 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, ni chyhoeddir yr Adroddiad Atodol cyn diwedd cyfnod o bedair wythnos o ddyddiad cyhoeddi Adroddiad drafft .

7. Bydd y penderfyniad hwn yn dod i rym ar 4 Rhagfyr 2017..

Cyhoeddwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar 4 Rhagfyr 2017